# NORTH WALES LABC BUILDING EXCELLENCE AWARDS 2016
# GWOBRAU RHAGORIAETH ADEILADAU LABC GOGLEDD CYMRU 2016

## Best LABC
## Site Supervisor of the Year

George Povey

## *Goruchwyliwr Safle LABC*
## *Gorau'r Flwyddyn*

*George Povey*

## Anwyl Construction Ltd







We have now worked with this gentleman on two sites within the Authority, at Abersoch and Y Felinheli. His determination to oversee that both sites progressed most efficiently with regards Health and Safety, technically and levels of craftsmanship on site are a credit to himself and his company. George is an experienced construction industry professional, always inviting Building Control to the site before works commence, and determination to get things right first time. When dealing with these sites, the Building Control Officer would be asked questions about the regularity of visits, and any information that the Building Control Surveyor may have with regards to groundwork issues such as land drainage culverts. George would also discuss the plans he had obtained from the architect with the Building Control Surveyor to ensure that any queries were addressed before commencement of works. George would always welcome each Surveyor when visiting site, ensuring that they had received the site induction, and that the correct PPI was worn. He would accompany the Surveyor and discuss the work in hand. Although the majority of inspections were undertaken whilst construction work was in the ground, George would always notify Building Control if any work which could not be seen at the completion of the project, was verified and recorded by the Local Authority before covering up. George would always contact Building Control if he had any variances to the original design or a if any change in material be used on site, this was in his mind to ensure that he and Building Control Surveyor were aware of the same changes. Both sites were always tidy, with notifications about Health and Safety clearly displayed in prominent locations on the sites. George, a "people's person", is always held in high esteem and respect by the main contractors workforce and sub-contractors for his knowledge of the construction industry, his wish to always do the work correctly, and his mutual respect of the workforce.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithio gyda'r gŵr bonheddig yma ar ddau safle yn yr Awdurdod – yn Abersoch a'r Felinheli. Roedd y ddau safle yn ddatblygiadau domestig ac ystyriwyd fod y ddau yn rhai effeithlon o ran Iechyd a Diogelwch a hefyd yn dechnegol o safbwynt lefel crefftwaith ar y safle a phenderfyniad yr Asiant Safle i gael pethau yn iawn y tro cyntaf. Roedd George, sy'n weithiwr proffesiynol yn y diwydiant adeiladu, bob amser yn gwahodd Rheolaeth Adeiladu i'r safle cyn dechrau ar y gwaith. Yna, byddai'n gofyn cwestiynau i'r Swyddog Rheolaeth Adeiladu am amlder yr ymweliadau, oedd y Syrfëwr yn gwybod am unrhyw drafferthion gyda gwaith daear fel cylfatiau draenio tir ac os oedd unrhyw wrthwynebiad neu faterion lleol o ran anfon deunyddiau, neu ofynion lefel sŵn gan Adain Amgylcheddol yr Awdurdod Lleol. Byddai George hefyd yn trafod y cynlluniau roedd wedi eu cael gan y pensaer, ac os oedd gan y Syrfewr Rheolaeth Adeiladu unrhyw faterion technegol neu ddeunyddiau oedd angen gwirio eu haddasrwydd cyn dechrau gwaith ar y safle. Sicrhaodd fod ymweliadau rheolaidd yn digwydd a byddai'n cysylltu â staff Rheolaeth Adeiladu yng Nghaernarfon ddigon ymlaen llaw i sicrhau bod hysbysiad digonol. Byddai George bob amser yn croesawu bob syrfewr oedd yn ymweld â'r safle gan wneud yn siŵr eu bod wedi derbyn cyflwyniad a bod y dillad gwarchod cywir yn cael eu gwisgo. Byddai yn mynd gyda'r Syrfewr a thrafod y gwaith dan sylw gan wedyn sicrhau fod pawb yn gwybod beth oedd angen ei wneud (os o gwbl) cyn i'r Syrfewr adael y safle. Er bod mwyafrif yr archwiliadau wedi eu cynnal yn ystod y gwaith adeiladu, byddai George bob amser yn rhoi gwybod i Rheolaeth Adeiladu os oedd unrhyw waith na ellid ei weld ar ddiwedd y prosiect oedd wedi ei wirio yn gywir gan yr Awdurdod Lleol cyn ei gwblhau. Byddai George bob amser yn cysylltu â Rheolaeth Adeiladu os oedd unrhyw amrywiadau i'r dyluniad, neu fod deunydd gwahanol i gael ei ddefnyddio ar y safle er sicrhau fod y Syrfewr Rheolaeth Adeiladu hefyd yn gwybod am y newidiadau. Roedd y ddau safle bob amser yn daclus gyda hysbysiadau Iechyd a diogelwch wedi eu gosod mewn lle amlwg. Mae George 'sy'n ddyn pobl' yn fawr ei barch gan weithlu'r prif gontractwyr a'r is-gontractwyr oherwydd ei wybodaeth am y diwydiant adeiladu, ei ddymuniad i wneud pethau yn iawn bob amser, a'i barch yntau i'r gweithlu.